CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun, nos Lun, 4 Medi 2023 am 7:30pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], Owen Evans, Osian Owen, Simon Knight-Saunders, Eilir Jones, Ceri Ranson ynghyd â'r Clerc, Sian E Thomas, y Cynghorydd Sir Hugh Evans a dau aelod o'r cyhoedd.
Yn anffodus, oherwydd problemau technegol, nid oedd modd defnyddio Zoom.

Rhan 1

Dechreuodd y cyfarfod am 7:34pm.

1057. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1058. **Ymddiheuriadau** – derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr David Baker a Shaun Williams, a gafodd ei longyfarch gan y Cadeirydd ar ychwanegiad i'r teulu a'r Cynghorydd Huw Edwards sydd wedi dod yn dad eto.

1059. **Datgan buddiannau.** Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1060. **Sesiwn Cyfranogiad y Cyhoedd**. Roedd criw o drigolion o Graigfechan yn bresennol i fynegi eu pryderon am dafarn y Three Pigeons Inn, Graigfechan. Maent yn bryderus y bydd cyhoeddiad nad yw'r dafarn yn ddichonadwy ac y cyflwynir cais i Gyngor Sir Ddinbych i newid y defnydd i eiddo preswyl. Roedd y trigolion yn poeni gan fod y dafarn yn ganolbwynt y gymuned ac y byddai'r gymuned yn dioddef pa na bai yno mwyach. Roedd y criw yn dymuno gwneud y Cyngor Cymuned yn ymwybodol o'r sefyllfa a barn y gymuned rhag ofn y cyflwynir cais cynllunio newid defnydd i'r awdurdod lleol.

Diolchodd y Cadeirydd iddynt am dynnu sylw'r Cyngor at hyn a dywedodd y grŵp y byddent yn tynnu sylw'r Cyngor at unrhyw ddatblygiadau pellach. Awgrymodd y Cynghorydd Evans y dylai'r grŵp gysylltu gyda'r Aelodau Senedd Darren Millar a Llyr ap Gruffydd ynghylch eu pryderon i weld a allent gynorthwyo e.e. lleihau Ardrethi Busnes y dafarn os yw'r costau cynnal y dafarn yn broblem.
Penderfynwyd: Cytunodd yr holl gynghorwyr i gefnogi'r grŵp gan fod y Three Pigeons yn bwysig iawn i'r gymuned ac mae hefyd yn un o'r tafarndai hynaf yng Nghymru gyda hanes hynod.

1061. **Cytuno ar a llofnodi cofnodion y cyfarfod cyffredin a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2023**
Yn dilyn ystyried y cofnodion, cytunodd y Cyngor eu bod yn gofnodion cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

1062. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

a. Roedd y Clerc wedi cyflwyno sylwadau'r Cyngor Cymuned am y Cynllun Datblygu Lleol i Gyngor Sir Ddinbych.

b. Roedd y Clerc wedi anfon cynllun y cae chwarae gyda rhestr o'r offer chwarae sy'n ofynnol i'r pedwar cwmni a fynegodd ddiddordeb. Mae un wedi cynghori nad yw'n dymuno tendro am y gwaith mwyach. Gofynnwyd am ymateb erbyn diwedd mis Medi.

c. Hysbyswyd Cyngor Sir Ddinbych am y gordyfiant ar hyd y llwybr wrth yr ysgol newydd. Cafwyd ateb yn dweud nad efwr enfawr sydd yno ond yn hytrach efwr cynhenid. Mae'r awdurdod lleol wedi tacluso'r llwybr i raddau ond wedi nodi bod mwyafrif y llystyfiant wedi'i wreiddio ar ochr yr ysgol newydd ac mai cyfrifoldeb yr ysgol yw clirio gweddill y llystyfiant. Diolchwyd i swyddog Cyngor Sir Ddiinbych fu'n ymwneud â hyn am ei gwaith caled.

d. Roedd y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch y gordyfiant ar y llwybrau ger yr arosfannau bws yng Ngholeg Llysfasi ac mae'r llwybrau wedi cael eu clirio.

1063. **Y posibilrwydd o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn dod yn Barc Cenedlaethol**
Cafwyd trafodaeth am fanteision ac anfanteision posibl yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn troi'n Barc Cenedlaethol.
Penderfynwyd: Cytunwyd na fyddai statws Parc Cenedlaethol yn gwella'r ardal oherwydd y diffyg seilwaith ac y dylid defnyddio unrhyw gyllid sydd ar gael i wella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

1064. **Polisïau'r Cyngor**
Bu'r Cynghorwyr yn ystyried rhestr o bolisïau a luniwyd gan y Clerc a **phenderfynwyd:** diweddaru'r polisïau cyfredol yn unol â'r rhestr ac i'r Clerc ymchwilio a drafftio polisïau yn achos y rhai coll. **Gweithred:** Y Clerc i ymchwilio i a drafftio polisïau gan nad oes gan Un Llais Cymru na'r SLCC restr cynhwysfawr o'r polisïau sy'n ofynnol.

1065. **Cynlluniau Hyfforddiant y Cynghorwyr**
Nodwyd fod y Cynghorwyr yn parhau i wneud hyfforddiant ac y dylent gysylltu â'r Clerc os hoffent gael eu cofrestru ar unrhyw gwrs.

1066. **Cae Chwarae Llanfair DC**

a. Grantiau

1. Mae'r Cyngor wedi derbyn grant gwerth £2,500 gan Ymddiriedolaeth Elusennol Iarll Fitzwilliam tuag at y gwaith i'w wneud yn y cae chwarae. Mae'r Clerc wedi diolch i'r ymddiriedolwyr am eu cyfraniad hael.
2. Cyflwynwyd cais i'r Loteri Genedlaethol am grant i ddechrau ar brosiect Cae Llinos a derbyniwyd £8,500 gan y Loteri heddiw.
3. Mae'r Clerc wedi cwblhau cais am grant gan Cadw Cymru'n Daclus am eitemau'n gysylltiedig â thyfu bwyd, yn cynnwys sied, tŷ gwydr a choed ffrwythau. Hysbyswyd y Cyngor ei fod wedi llwyddo yng Ngham 1 y cais a bydd cyfarfod ar y safle'n cael ei gynnal yn fuan. Mae rhai o drigolion Pentrecelyn wedi cynnig helpu gyda'r prosiect.
4. Dechreuwyd ar gais arall i'r Loteri Genedlaethol. Amcangyfrifir y bydd y cais am fwy na £100,000 a bydd yn cael ei gyflwyno unwaith y derbynnir y dyfynbrisiau gan y cwmnïau offer chwarae.

b. Coed

1. Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn adroddiad diwygiedig gan yr arbenigwr coed yn awr gan fod Swyddog Coed Cyngor Sir Ddinbych angen rhagor o fanylion am leihau uchder rhai o'r coed. Mae'r Clerc wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Coed a'r arbenigwr coed ac maent yn cytuno ar leihau uchder y coed a bod angen torri gwernen ymaith oherwydd clefyd arni.
2. Mae'r Clerc wedi cysylltu â chwmni sy'n arbenigo mewn ecoleg i gynnal arolwg a llunio adroddiad yn barod ar gyfer y cais am y prif grant, yn dilyn derbyn cyngor gan uwch swyddog yng Nghyngor Sir Ddinbych sy'n ymwneud â'r prosiect yn awr. Amcangyfrifir y bydd yr adroddiad yn costio oddeutu £1,200 i'r Cyngor Cymuned. **Penderfynwyd:** Cytunodd yr holl Gynghorwyr y dylid penodi'r cwmni i gynnal yr arolwg a chynhyrchu adroddiad. **Gweithred:** Y Clerc i drefnu hyn. Tynnodd y Cynghorydd Evans sylw fod rhaid trigolion yn y gymuned wedi mynegi pryderon, a chytunodd fod ymgynghori gyda'r uwch swyddog yng Nghyngor Sir Ddinbych a'r swyddog bioamrywiaeth oedd y ffordd orau o fwrw ymlaen i sicrhau cadw at yr holl weithdrefnau cyfreithiol a phriodol.
3. Nodwyd bod holiadur, nad oedd gan y Cyngor Cymuned, yn cael ei ddosbarthu o amgylch Cae Mair ynghylch chwarae ar y mannau gwyrdd yno. Er bod Pure Homes yn parhau i fod

yn berchen ar y mannau gwyrdd maent yn cael eu rheoli gan gwmni preifat ac mae'r trigolion yn talu am hyn. Mae dogfennau cynllunio a gyflwynwyd gan Pure yn 2020 (cyfeirnod 20/2020/0781) yn dangos manylion y cynigion, yn cynnwys llwybr ffitrwydd pren lefel isel. Gwnaeth y Cadeirydd bwysleisio mai'r unig ddarn o dir yn Llanfair DC sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned yw Cae Llinos.

4. Bydd Scottish Power yn symud eu polyn ddiwedd mis Hydref.
5. Dywedodd y Cadeirydd y derbyniwyd llythyr gan grŵp Llanfair FYW yn mynegi eu pryderon am y cae. Cytunodd yr aelodau yr ymdriniwyd â'r pryderon a nodwyd yn y llythyr eisoes. **Gweithred:** Y Clerc i'w hysbysu yr ymdriniwyd â'u pryderon a bod croeso iddynt ddod i unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor.

1067. **Materion Priffyrdd a'r Amgylchedd**

a. Pryderon am oryrru. Mae Darren Millar wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch gosod croesfan ar draws yr A525 ger yr hyn ysgol yn Llanfair DC. Yn anffodus nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn fodlon rhoi croesfan ond mae'n gobeithio y bydd y terfyn cyflymder 20 milltir yr awr newydd yn y pentref i'w gyflwyno ar 17 Medi yn cynorthwyo i atal goryrru. **Penderfynwyd:** y dylai'r Cynghorwyr hysbysu'r Clerc am unrhyw bryderon er mwyn gwneud Pennaeth Priffyrdd newydd Cyngor Sir Ddinbych yn ymwybodol ohonynt. Bydd hefyd yn cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

b. **Min y ffyrdd** yn flêr o gwmpas Graigfechan **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych.

c. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn am osod arwyddion cerddwyr ar yr A525 ger Llanbenwch.

d. Mae'r Cynghorydd Moulsdale wedi uwchraddio'r hysbysfwrdd ar rheiliau'r hen ysgol ac yn mynd i ofyn i bennaeth yr ysgol newydd a ellir ei osod yno. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd am ei waith proffesiynol. **Penderfynwyd:** Ad-dalu cost y deunyddiau a ddefnyddiwyd, gwerth £109.39, iddo.

e. Mae rhai o drigolion Pentrecelyn wedi cynnig cynnal a chadw hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned yno a derbyniwyd eu cynnig yn ddiolchgar. **Gweithred:** Y Cadeirydd i siarad gyda nhw.

1068. **Materion Cyllid**

a. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad am y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol ac esboniodd ei bod yn cymryd cyfnod hir

iawn i gael cerdyn debyd gan HSBC. Mae'r pumed set o ffurflenni'n cael eu llenwi ar hyn o bryd! **Penderfynwyd:** tynnu enwau Eirwen Godden a Steve Whipp oddi ar y rhestr llofnodwyr cyfrifon HSBC.

b. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol Rhestr Taliadau mis Gorffennaf a mis Awst 2023, a chytunwyd ar yr holl daliadau.

Dyddiad	I	Swm	Sylwadau
03/07/2023	JDH Business Services	£294.00	Ffi archwilio mewnol 2022-23
03/07/2023	Sandra Williams	£85.62	Cyfieithu'r Adroddiad Blynyddol
05/07/2023	No Butts Bin Co	£330.60	Mainc i'r arosfan bws yng Nghraigfechan
18/07/2023	AVOW	£644.20	Cyflog y Clerc ym mis Gorffennaf a threuliau mis Mehefin a ffi cyflogres
21/07/2023	HSBC	£5.00	Ffi bancio mis Mehefin 2023
		£1,359.42	

Dyddiad	I	Swm	Sylwadau
04/08/2023	Sandra Williams	£73.68	Cyfieithu
04/08/2023	Cyfrif adneuo	£2,500.00	Trosglwyddo'r cyllid grant rhwng cyfrifon banc
16/08/2023	AVOW	£617.65	Cyflog y Clerc ym mis Awst a threuliau mis Gorffennaf
26/08/2023	J Lloyd a'i Fab	£45.60	Postyn i'r cae
21/08/2023	HSBC	£5.00	Ffi bancio mis Gorffennaf 2023
		£3,241.93	

c. Mae'r Archwilydd Allanol yn adolygu cyfrifon 2022/23 ac rydym ni'n disgwyl cael ei ymateb yn fuan.

d. Cytunwyd i adnewyddu tanysgrifiad Zoom y Cyngor am y flwyddyn 2023/24.

e. Bydd y Clerc yn llenwi'r ffurflen y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw ar ran y Cyngor.

1069. **Cynllunio**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio i'w trafod.

1070. **Asesiad Risg Blynyddol**

Cyflwynodd y Clerc Asesiad Risg drafft ar gyfer 2023/24.
Penderfynwyd: mabwysiadu'r ddogfen. **Gweithred:** Y Clerc i roi'r ddogfen ar y wefan.

1071. **Gohebiaeth i'w adolygu**

a. Dosbarthwyd gwybodaeth am Newid yn yr Hinsawdd i'r cynghorwyr i'w ystyried.
b. Mae Cyngor Tref Rhuthun yn cynnal digwyddiad i ystyried sut i roi hybu'r dref. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr hysbysu'r Clerc os ydynt yn dymuno mynd i'r digwyddiad.
c. Mae'r wybodaeth am Briffyrdd i Ddraenogod a dderbyniwyd yn mynd i gael ei roi ar wefan y Cyngor.

d. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr hysbysu'r Clerc
e. Derbyniwyd neges e-bost gan Grŵp Anabledd Sir Ddinbych ynghylch y cynlluniau ar gyfer y cae ac maent wedi'u plesio'n fawr gyda'r cynlluniau.
f. Derbyniwyd neges e-bost gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch torri coed ger yr ysgol newydd oherwydd clefyd coed ynn.
g. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Fiona Faire am drin y planhigion yn y cafnau planhigion wrth y gofeb rhyfel. **Gweithred:** Y Clerc i anfon neges e-bost gan y Cyngor i ddiolch iddi.

1072. **Eitemau y tynnwyd sylw Cynghorwyr atynt**

a. Hysbysodd y Cadeirydd y Cynghorwyr y byddai Phil Burrows o Gyngor Sir Ddinbych yn dod i gyfarfod y Cyngor ym mis Hydref i drafod cysylltedd y rhyngrwyd yn yr ardal.
b. Derbyniwyd neges e-bost gan un o drigolion Llanfair DC yn gofyn am osod drych wrth y fynedfa i faes parcio Neuadd y Pentref. Trosglwyddwyd y neges i Bwyllgor Neuadd y Pentref sy'n mynd i'w drafod.
c. Nodwyd fod mynediad i Gae Llinos wedi'i gyfyngu'n aml gan fod ceir yn parcio wrth y giât i'r cae. Bydd arwydd yn cael ei osod yn gofyn i gerbydau beidio â pharcio yno gan fod y Cyngor angen cael mynediad. **Gweithred:** Y Cynghorydd Moulsdale i osod yr arwydd ar ôl i'r Clerc ei brynu.
d. Cafwyd gohebiaeth gan un o drigolion Cae Mair ynghylch yr wyth eiddo sy'n cael eu cyfri yn dai fforddiadwy. **Gweithred:** Y Clerc i roi manylion cyswllt y swyddog priodol yng Nghyngor Sir Ddinbych iddynt.
e. Adroddwyd fod plant wedi bod yn codi caead y tanc storio dŵr yng Nghae Mair, sy'n 20 troedfedd o ddyfnder. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Pure Homes i ofyn am gaead wedi'i gloi ar y tanc.
f. Coed marw ger Cae Mair. **Gweithred:** Y Clerc i hysbysu Cyngor Sir Ddinbych.
g. Nodwyd fod canghennau coed yn hongian dros lwybr rhif un i Eyarth o Gae Mair a bod angen giât mochyn lle mae'r llwybr yn cyrraedd yr A525 i atal plant rhag rhedeg i'r ffordd. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych.
h. Mae angen symud yr arwyddion 40 milltir yr awr wrth Goleg Llysfasi i ochr arall y groesffordd er budd diogelwch. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych.

Gan na dderbyniwyd unrhyw ddyfynbrisiau gan y cwmnïau offer chwarae nid oedd yn ofynnol mynd i Ran 2.

1073. Cytunwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar 2 Hydref 2023 yng Ngholeg Llysfasi am 7:30pm.

Gorffennodd y cyfarfod am 9:20pm.

CADEIRYDD DYDDIAD